| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyngor Llawn |
| **DYDDIAD** | 7 Mawrth 2024 |
| **TEITL** | Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu 2022-23 a chyflwyno adolygiad o Bolisi Diogelu Cyngor Gwynedd |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Menna Trenholme |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | Dylan Owen, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |

**1. Y RHESWM PAM FOD ANGEN Y PENDERFYNIAD**

**1.1.** Pwrpas yr adroddiad hwn yw:

- Darparu diweddariad ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni gan y Panel Strategol Diogelu yn ystod 2022-23 (**Atodiad 1**).
- Cyflwyno'r Polisi a Chanllawiau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion sydd mewn perygl o gam-drin ac esgeulustod" ("Polisi Diogelu") (**Atodiad 2**) diwygiedig ynghyd â'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Panel Strategol Diogelu (**Atodiad 3**).

**2. CEFNDIR**

**2.1.** Prif flaenoriaeth y Cyngor yw sicrhau bod plant ac oedolion mewn perygl yn cael eu diogelu rhag cam-drin, esgeulustod, radicaleiddio, caethwasiaeth, cam-drin domestig a cham-fanteisio. Mae gan **bawb** yng Nghyngor Gwynedd gyfrifoldeb am greu amgylchedd sy'n sicrhau hyn, gan arwain at blentyn neu oedolyn sy'n llai tebygol o gael ei gam-drin.

**2.2.** Y Panel Strategol Diogelu sy'n sicrhau bod gweithdrefnau diogelu addas a phriodol yn eu lle ac mae'n bwysig fod holl aelodau yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol. Credir fod yr Adroddiad Blynyddol (**Atodiad 1**) yn crynhoi gwaith y Panel ar gyfer 2022/23 yn gywir a theg, gan hefyd gynnwys cyfeiriadau at sylwadau gan archwilwyr allanol ar y gwaith hwn.

**2.3.** Yn ystod 2023 fe gynhaliwyd adolygiad hefyd o Bolisi Diogelu y Cyngor, sy'n datgan sut rydym yn bwriadu cyflawni ei gyfrifoldebau statudol ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014). Gyda'r fersiwn cyfredol yn addasiad o Bolisi a grëwyd yn 2013, penderfynwyd ei bod yn amserol i baratoi polisi o'r newydd yn hytrach na diweddaru'r ddogfen yn unol â'r drefn arferol.

**2.4.** Bu gweithdy o dan arweiniad Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol fis Hydref 2023. Mynychodd cynrychiolaeth o swyddogion ar draws y Cyngor, gan gynnwys Pennaeth Cynorthwyol Plant - Diogelu ag Ansawdd ac Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd ac Iechyd Meddwl.

**2.5.** Cytunwyd ar sawl newid yn y gweithdy:

- Atega'r Polisi Diogelu diwygiedig fod gan bawb gyfrifoldeb i ddiogelu, ond noda hefyd fod cyfrifoldebau penodol ar gyfer pob Cynghorydd ac aelod o staff, yn

ogystal â manylu ar sut y dylai diogelu gael ei adlewyrchu mewn trefniadau contractio a chomisiynu.

- Amlygwyd y disgwyliadau i staff Cyngor Gwynedd a Chynghorwyr i weithredu yn ôl yr egwyddorion a nodir yn y polisi hwn bob amser, boed yn ystod oriau gwaith neu fel arall.
- Roedd aneglurder yn yr hen fersiwn rhwng diogelu ac amddiffyn, ac mae hynny wedi derbyn sylw bellach. Mae'r Polisi yn gwneud hi'n glir mai diogelu sydd o dan sylw, a bod gweithdrefnau eraill i'w dilyn wrth "amddiffyn".
- Mae'r Polisi diwygiedig yn amlygu rôl y Panel Strategol Diogelu. Penderfynwyd addasu Cylch Gorchwyl y Panel, a rhoddwyd sylw pellach i'r aelodaeth er mwyn gwneud yn siŵr fod uwch swyddogion ar draws y Cyngor yn ogystal ag arbenigwyr yn y maes diogelu Plant ac Oedolion yn cael gwahoddiad.
- Cryfhau'r trefniadau adrodd a monitro. Bydd Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn flynyddol. Mi fydd yr Adroddiad hwnnw hefyd yn mynd gerbron y Cyngor Llawn yn flynyddol.
- O ran Polisïau Diogelu adrannau unigol, nodwyd bod gan y Cyngor un Polisi corfforaethol. Fodd bynnag, gall yr adran gyflwyno eu polisi penodol eu hunain os bernir bod angen hynny.

**2.6.** Ar 20 Chwefror 2024, fe cymeradwyodd y Cabinet y Polisi diwygiedig, ac felly mae'r newidiadau uchod bellach wedi ei fabwysiadu.

**2.7.** Rydym yn cydnabod fod angen gwaith pellach er mwyn hyrwyddo'r Polisi diwygiedig ymysg holl staff y Cyngor. Teimlir fod ei gyflwyno i chi yn y Cyngor Llawn yn gam pwysig er mwyn codi ymwybyddiaeth yn eang i'r Polisi.

**3. Argymhelliad**

**3.1.** Gofynnir i'r Cyngor:

- dderbyn yr Adroddiad gerbron sy'n adrodd ar waith y Panel Strategol Diogelu ar gyfer y flwyddyn 2022-23.
- nodi'r Polisi Diogelu diwygiedig (**Atodiad 2**) ynghyd â'r Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Panel Strategol Diogelu (**Atodiad 3**).

**4. Barn y Swyddogion Statudol**

4.1 Barn y Swyddog Monitro

*Fel aelod o'r Panel rwy'n croesawu'r adroddiad sydd yn grynodeb priodol o'r gwaith. Mae'n gyfrwng i roi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn â'r cyfrifoldeb allweddol yma.*

4.2 Barn y Pennaeth Cyllid

*Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir. Nid oes mater yn ymwneud â phriodoldeb ariannol sydd angen eu tynnu i sylw'r Cyngor.*